BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF PUBLIC SERVICES BOARD

# Lles Cymdeithasol

Pen-y-bont ar Ogwr Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bridgend Public Services Board

## Gwybodaeth Cartrefi a digartrefedd

'... mae'r problemau tai sy'n wynebu fy nghymuned yn heriol iawn ac mae'n anodd gweld y golau ar ddiwedd y twnnel. Gallai'r effaith ar bobl iau fod yn enfawr a bydd y penderfyniadau rydym ni'n eu gwneud heddiw yn rhywbeth y mae'n rhaid iddyn nhw ei reoli pan fyddwn wedi mynd'

Fe wnaethom ni ganfod

### Rydyn ni eisiau tai da a diogel heb ddifetha'r amgylchedd

- Mae ansawdd yr amgylchedd lleol a mynediad i fannau gwyrdd yn bwysig.
- Mae pobl yn meddwl bod adeiladu mwy o dai yn cymryd lle gwyrdd lleol.
- Mae rhai pobl sy'n byw mewn ardaloedd llai cyfoethog yn dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd fforddio gwaith atgyweirio.
- Bydd tai da gydag insiwleiddio gwres a sŵn da yn helpu i fynd i'r afael â her tlodi tanwydd, ac yn gwneud tai newydd yn fwy gwydn.
- Mae safon llety ar rent yn yr ardal yn bryder 'I mi'n bersonol, mae'n fater o ddod o hyd i safon o lety ar rent sy'n addas i bobl fyw ynddo ac sy'n fforddiadwy.'

Fe wnaethom ni ganfod

### Mae bod â chartref a theimlo'n ddiogel yn bwysig i ni

- Mae mwy o gartrefi yn y rhanbarth nawr o'i gymharu â 4 blynedd yn ôl, 198,204 o gartrefi yn 2017 o'i gymharu â 200,281 yn 2020.
- Mae prisiau tai cynyddol yn peri pryder.
- Mae angen mwy i gefnogi prynwyr tro cyntaf a'r genhedlaeth iau.
- Bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw mewn llety rhent cymdeithasol a phreifat .
- Mae cynnydd yn nifer y bobl sy'n prynu eu cartrefi eu hunain ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac ym Merthyr Tudful.

Fe wnaethom ni ganfod

### Mae angen cymorth ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu'n wynebu digartrefedd

- Mae'r Gwasanaethau Digartrefedd wedi helpu llawer o bobl i aros yn eu cartrefi neu wedi eu cefnogi i ddod o hyd i lety a'i gadw.
- Mae angen mwy o wybodaeth am ble i gael cymorth am dai.
- Mae digartrefedd yn bryder, gyda mwy o bobl ddigartref yn bresennol yng nghanol trefi.
- Credwn fod y trydydd sector yn dda i gefnogi pobl a'u helpu gyda chyngor am arian.